Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

2.00pm, dydd Mawrth 29 Medi 2020
Cyfarfod Microsoft Teams

COFNODION

Presennol	
Enw	**Sefydliad**
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Yr Uwcharolygydd Ifan Charles	Heddlu Dyfed-Powys
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Menna Davies	Adran Gwaith a Phensiynau
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jane Lewis	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kris Kingsley	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Beth Cossins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Delyth Jones	Cyngor Tref Llanelli
Gary Jones	Cyngor Tref Llanelli
Arfon Davies	Cyngor Tref Llanelli
Y Cynghorydd Michael Theodoulou	Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn
Louise Robinson	Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn
Huw Thomas	Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, Cadeirydd y BGC, bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynwyd y gwesteion.

Ymddiheuriadau	
Enw	**Sefydliad**
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Y Cynghorydd Jan Curtice	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

2. Adroddiadau Blynyddol Cyngor Tref a Chymuned

Cyngor Tref Llanelli

Dywedodd Gary Jones, Clerc Cyngor Tref Llanelli, eu bod wedi ymgorffori'r agwedd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae Swyddog Datblygu Cymunedol wedi'i gyflogi ers dros 15 mlynedd ac mae'n cydweithio'n agos â nifer o sefydliadau eraill yn yr ardal. Mae amcanion y Cyngor yn cael eu llywio gan anghenion cymunedol ac mae'n broses sy'n dechrau o'r gwaelod i fyny.

Cyflwynodd Delyth Jones, Swyddog Datblygu Cymunedol, yr adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mae rhaglen waith y cytunir arni yn cael ei datblygu'n flynyddol ac yn cael ei hadolygu bob chwe mis. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad. Ystyrir pob agwedd ar y rhaglen waith er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi blaenoriaethau'r ddeddf.
- Darparwyd enghreifftiau o waith ymgysylltu sy'n cynnwys Grŵp Llywio Adfywio Tyisha, Ardal Gwella Busnes, Grŵp y Tasglu, Partneriaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin a Threftadaeth Nas Cerir (Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Ysgol Coedcae ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed)
- Mae Covid-19 wedi effeithio ar y ffordd y mae ymgysylltu cymunedol yn cael ei wneud.

Canmolodd Barry Liles waith y prosiect Treftadaeth Nas Cerir a dywedodd fod gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gysylltiadau cryf â threftadaeth ac archaeoleg ac y byddai'n hapus i ddarparu manylion cyswllt unigolion priodol. Yn ogystal, cynigiodd Ruth Mullen gysylltiadau â Chanolfan Treftadaeth Dyffryn Tywi sy'n darparu hyfforddiant ymarferol.

Dywedodd Huwel Manley fod y Cynghorau Tref a Chymuned yn cydweithio'n dda, yn enwedig o ran y rhaglen plannu coed. Ychwanegodd Delyth fod Cyngor Tref Llanelli wedi sefydlu gardd ar gyfer glöynnod byw a bod ganddynt dri phrosiect coed ar y gweill.

Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn

Cyflwynodd Louise Robinson, Swyddog Datblygu Cymunedol, yr adroddiad:

- Amcan y Cyngor yw gwella ansawdd bywyd y trigolion yn ogystal â'r dyletswyddau statudol.

- Yn ystod 2019/20, rhoddodd Un Llais Cymru y wobr 'Y Gorau yng Nghymru' am Ymgysylltu â'r Gymuned i'r Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu perthnasoedd cadarn yn sgil gwneud gwaith amlasiantaeth.

Estynnodd Barry Liles ei longyfarchiadau i'r Cyngor am y wobr gan Un Llais Cymru. Canmolodd Ruth Mullen y fenter Prynu'n Lleol y dros y Nadolig.

Holodd Huwel Manley a ellid cydweithio mwy â Chyfoeth Naturiol Cymru fel perchnogion Coedwig Pen-bre. Ymatebodd Michael Theodoulou drwy ddweud y byddai hyn yn cael ei groesawu.

Dywedodd Delyth Jones fod y gwaith cydweithredu rhwng y saith Cyngor Tref a Chymuned a Chyngor Sir Caerfyrddin yn unigryw ledled Cymru a'i fod yn cael ei ystyried yn esiampl. Diolchodd Gwyneth Ayers i'r ddau Gyngor am eu cyflwyniad a bod yr amser sy'n cael ei fuddsoddi o ran ymgysylltu o fudd i bawb.

Y CAM GWEITHREDU	
Sicrhau cysylltiad rhwng Louise Robinson a Huwel Manley	Gwyneth Ayers

3. Cofnodion a Materion yn Codi:

6 Gorffennaf 2020

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparodd Gwyneth Ayers y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.
Cam Gweithredu 14 – Dywedodd Marie Mitchell y bydd GamCare yn cysylltu â'r Tîm Cymorth yn uniongyrchol gyda gwybodaeth am hyfforddiant a chymorth.

Holodd Ruth Mullen a ddylid ymestyn Cam Gweithredu 7 i gynnwys cysylltiadau â'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth – cytunwyd ynghylch hyn.

Holodd Julian Atkins sut mae'r Cyngor Sir a Chyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn yn cydweithio ar deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy â Pharc Arfordirol y Mileniwm, sy'n ased allweddol. Dywedodd Ruth Mullen y bydd yn rhoi manylion cyswllt Simon Charles, sy'n arwain ar y rhaglen teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy, i Julian. Dywedodd Huwel Manley fod y Fargen Ddinesig yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer Cerbydau Trydan ar draws y rhanbarth, gan gynnwys anghenion seilwaith. Ychwanegodd Julian fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gwneud cryn dipyn mewn perthynas â gosodiadau pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan ar ei ystâd ei hun.

Y CAM GWEITHREDU	
Cysylltu â Simon Charles ynghylch Gwaith Teithio Llesol y Cyngor	Ruth Mullen a Julian Atkins

4. Dadansoddiad o Sgiliau o Effeithiau Covid-19 ar Sir Gaerfyrddin

Rhoddodd Jane Lewis gyflwyniad ar yr adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf.

- Cysylltwyd â 574 o fusnesau'n uniongyrchol a bu 422 o fusnesau eraill yn cymryd rhan mewn arolwg ar-lein. Darparodd hyn lawer o wybodaeth am effaith Covid ar fusnesau.
- Y prif ganfyddiad oedd yr angen i wella sgiliau digidol a TGCh ar draws y rhan fwyaf o sectorau.
- Ceir darlun cymysg o ran y galw am brentisiaethau yn y dyfodol.
- Mae angen cymorth ychwanegol ar fusnesau o ran ymholiadau am faterion digidol/TG, Adnoddau Dynol, a materion cyfreithiol, ariannol a rhai sy'n ymwneud ag yswiriant. Mae Busnes Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn.
- Sir Gaerfyrddin sydd â'r drydedd lefel uchaf o hunangyflogaeth yng Nghymru.
- Roedd 75% wedi manteisio ar y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 78%.
- 30% yw'r gyfradd ffyrlo yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn 1% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Nid ydym yn gwybod pa effaith y bydd diwedd y cynllun ffyrlo yn ei chael ar ddileu swyddi.
- 5.7% yw'r gyfradd o ran y rhai sy'n hawlio yn Sir Gaerfyrddin o'i gymharu â 6.3% a 6.5% ar gyfer Cymru a'r DU, yn y drefn honno.
- Roedd nifer yr hysbysebion swyddi ym mis Awst yn uwch na'r rhai a welwyd yn ystod yr un cyfnod yn y pedair blynedd diwethaf.
- Disgwylir i adroddiad arall gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref a fydd yn cynnwys manylion am gyfraddau o ran dileu swyddi, effaith ffyrlo, anghenion brys o ran hyfforddiant sgiliau, meysydd sy'n tyfu ac yn dirywio ac effaith ar y diwydiant lletygarwch.

Dywedodd Barry Liles ei fod yn siomedig ynghylch yr effaith ar brentisiaethau ac mai'r grŵp oedran 16-24 oed yw'r un a effeithir arno waethaf mewn dirwasgiadau.

Ychwanegodd Menna Davies ei fod yn beth cadarnhaol bod mwy o swyddi'n cael eu hysbysebu ym mis Awst eleni o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gyda chynnydd penodol mewn cyflogaeth ym maes manwerthu a gyrwyr dosbarthu. Fodd bynnag, roedd cynnydd o 286 o aelwydydd yn hawlio Credyd Cynhwysol rhwng Gorffennaf ac Awst.

Dywedodd Julian Atkins fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys wedi llunio adroddiad tebyg ynghylch yr effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiadau hyn gyda'i gilydd yn rhoi darlun da o'r effaith ar gymunedau gwledig. Dywedodd Jane Lewis fod adroddiad tebyg wedi'i lunio ar gyfer Powys oherwydd mai partneriaeth ranbarthol ydyw.

Y CAM GWEITHREDU	
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Sgiliau yn y cyfarfod nesaf	Jane Lewis

5. Y Rhaglen Cychwyn Arni

Rhoddodd Menna Davies gyflwyniad ar y Rhaglen Cychwyn Arni.

- Mae Cynllun Creu Swyddi Cychwyn Arni yn gynllun sy'n werth £2,000,000 a bydd yn creu cannoedd o filoedd o swyddi newydd â chymhorthdal llawn i bobl ifanc ledled y wlad. Lansiwyd y cynllun ar 2 Medi ac roedd ceisiadau'n agor ar gyfer cyflogwyr oedd am gynnig

lleoliadau. Yn ne-orllewin Cymru, ymrwymodd 352 o gyflogwyr â 7,000 o swyddi dros y pythefnos diwethaf.

- 16-24 oed yw'r grŵp oedran yr effeithiwyd arno fwyaf, sydd â phedair gwaith yn fwy o'r grŵp oedran hwn ar Gredyd Cynhwysol ar hyn o bryd o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd.
- Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd i gynnig lleoliad gwaith i bobl ifanc 16-24 oed sydd ar Gredyd Cynhwysol ac mewn perygl o fod yn ddi-waith yn yr hirdymor. Byddant yn cael cynnig lleoliad gwaith am 6 mis am 25 awr yr wythnos ar isafswm cyflog cenedlaethol. Mae canllawiau ar gael ar y wefan Gov.uk.
- Y meini prawf ar gyfer cyflogwyr yw eu bod yn recriwtio mwy na 30 o bobl dros oes y fenter sydd ar hyn o bryd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2021. Gellir cyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol ar-lein. Gall busnesau sydd am recriwtio llai na 30 o bobl bartneru â busnesau eraill i gyrraedd y swm o 30 o bobl sy'n ofynnol.
- Darperir grant ymlaen llaw o £1,500 ar gyfer pob person a gyflogir i dalu am hyfforddiant ac ati.
- Bydd lleoliadau swyddi Cychwyn Arni yn cael eu llwytho ar blatfform y cynllun Credyd Cynhwysol. Bydd Anogwyr Gwaith hefyd yn cyfeirio ymgeiswyr addas at gyflogwyr.
- Gellir gweld rhestr o sefydliadau/busnesau sydd wedi mynegi diddordeb ar y wefan Gov.uk.

Y CAM GWEITHREDU	
Dosbarthu dolen i dudalen Cychwyn Arni https://www.gov.uk/government/collections/kickstart-scheme	Menna Davies

6. Cyfoeth Naturiol Cymru - dyraniad cyllid ar gyfer prosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Dywedodd Huwel Manley fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sicrhau bod £25,000 ar gael i bob BGC yng Nghymru i'w ddefnyddio tuag at yr amcanion llesiant, yn enwedig ar gyfer cyflawni prosiectau amgylcheddol. Y gobaith yw mai hwn fydd y cyntaf o dair blynedd o gyllid.

Yn eu cyfarfod diwethaf trafododd y Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iach ynghylch prosiectau posibl a oedd yn cynnwys:

1. Man gwyrdd amlswyddogaethol Lôn Jackson - astudiaeth sy'n edrych ar Seilwaith Gwyrdd yn yr ardal ac sy'n cynnwys gwelliannau i ansawdd aer a'r gwaith o blannu coed.
2. Lliniaru newid yn yr hinsawdd Castellnewydd Emlyn – adfywio'r dref, a gafodd ei tharo'n wael gan storm Callum, mewn ffordd gynaliadwy.
3. Rhaglen plannu coed gan weithio gyda'r saith Cyngor Tref a Chymuned.

Bydd cynigion sy'n cael eu cymeradwyo gan yr aelodau'n cael eu cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru. Gellir cyflwyno cynigion eraill fel prosiectau wrth gefn.

Gofynnodd Anna Bird a ellid cyfuno'r cyllid ar gyfer y flwyddyn wedyn yn rhanbarthol er mwyn rhoi hwb cychwynnol i'r gwaith ar atebion gwyrdd a chymdeithasol ar gyfer iechyd, sy'n flaenoriaeth i'r tri BGC, sydd hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Cytunodd Huwel fod hwn yn awgrym ardderchog ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac ychwanegodd y gallai fod arian arall ar gael i wneud y gwaith. Ychwanegodd Beth Cossins y gellid defnyddio'r chwe mis nesaf i ddatblygu fframwaith comisiynu cryfach ar gyfer y cyllid.

Gofynnodd Huwel hefyd am gael gwybod am flociau o'r tir sydd ar gael, sydd dros 5 erw, y tu allan i ardaloedd cynghorau cymuned ar gyfer rhaglenni ar raddfa fwy.

Y CAM GWEITHREDU	
Cysylltu â Huwel Manley ynghylch awgrymiadau ar gyfer tir (ac eithrio eiddo'r cyngor cymuned) i ddatblygu coetir ar raddfa fawr.	Pawb
Datblygu prosiectau y cytunwyd arnynt i'w cyflwyno i CNC.	Tîm Cynorthwyo BGC

7. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Rhoddodd Anna Bird y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol am waith y Bwrdd:

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ar 24 Awst yn cadarnhau bod y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Drawsnewid yn cael eu hymestyn tan fis Ebrill 2022. Ers hynny, maent wedi cadarnhau y bydd rhaglenni presennol y Gronfa Drawsnewid yn cael eu cefnogi ar y lefelau presennol ar gyfer y cyfnod ariannu estynedig. Mae'r manylion ynghylch prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a'u dyraniad eto i ddod.
- Comisiynwyd adolygiad o'r Rhaglen Drawsnewid a disgwylir adroddiad yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd hwn yn cael ei rannu ag aelodau maes o law.
- Anfonwyd cyfarwyddebau at y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ddiwedd mis Awst yn nodi ystod o ofynion ynghylch cynllunio ac adrodd. Disgwylir i adroddiadau blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael eu cyhoeddi erbyn 15 Hydref a chafwyd cais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o anghenion y boblogaeth a gynhaliwyd yn 2017, gan nodi unrhyw newidiadau neu wahaniaethau sylweddol o ran anghenion a ragwelir ar gyfer gofal a chymorth.

Ychwanegodd Gwyneth y bydd angen i'r BGC ddiweddaru ei asesiad llesiant a chyda chymeradwyaeth y BGC hoffai i'r broses gyd-fynd â'r wybodaeth ddiweddaraf am boblogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gymaint â phosibl. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

Y CAM GWEITHREDU	
Cysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau dull cydgysylltiedig o asesu anghenion y boblogaeth ac asesu anghenion llesiant	Tîm Cynorthwyo BGC

8. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin - blaenoriaethau'r dyfodol

Dywedodd Gwyneth Ayers fod blaenoriaethau'r BGC yn y dyfodol wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd blaenorol ynghyd ag archwiliad o effeithiau Covid a sut y bydd y sir yn gwella ar ei ôl. Cyflwynwyd tabl yn y cyfarfod olaf ynghylch yr hyn y mae'r grwpiau cyflawni wedi'i ystyried a'r blaenoriaethau a nodwyd mewn trafodaethau. Mae colofn wedi'i hychwanegu at y tabl hwnnw sy'n nodi meysydd ffocws arfaethedig wrth gamu ymlaen. Darparwyd crynodeb.

Dywedodd Julian Atkins fod angen cryfhau'r llinyn ynghylch argyfwng hinsawdd sydd â dwy is-elfen:

- Datgarboneiddio – mae Powys yn gwneud gwaith i nodi maint y dasg o ddatgarboneiddio cyngor sir gwledig ac mae wedi gwneud rhywfaint o waith o ran cyfran yr allyriadau o amaethyddiaeth, diwydiant, tai a thrafnidiaeth. Mae heriau mawr yn bodoli o ran trafnidiaeth.

- Adfer natur a cholledion bioamrywiaeth – byddai'n ddefnyddiol goruchwylio'r holl waith sy'n cael ei wneud.

Soniodd Ruth Mullen am y flaenoriaeth o ran canolfannau cyd-ddefnyddio yng nghanol trefi sydd wedi bod ar yr agenda ers tro. Mae Covid wedi ein hannog i edrych ar hyn o ddifrif, yn enwedig eiddo sy'n dod yn wag yng nghanol ein trefi ac sy'n rhoi cyfle gwirioneddol i rannu eiddo. Ychwanegodd ei bod yn ymwybodol bod Dirprwy Weinidog wedi gwneud datganiad cryf am gefnogi'r canolfannau cyd-ddefnyddio yng nghanol trefi am wahanol resymau sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau eraill. Bydd hyn hefyd yn arwain at lai o deithio ac yn cyd-fynd â'r agenda o ran lleihau carbon.

Y CAM GWEITHREDU	
Dosbarthu'r Adroddiad Cynhadledd ynghylch Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd	Beth Cossins
Trafod rhagor o fanylion yn y cyfarfod nesaf ynghylch Blaenoriaethau'r Dyfodol y cytunwyd arnynt	Tîm Cynorthwyo BGC

9. Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol - 4 Tachwedd 2020

Dywedodd Kate Harrop fod ein cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 4 Tachwedd ond y bydd bellach yn Gyfarfod y BGC Rhanbarthol a'r BPR, a gynhelir gan Geredigion.

Mae'r agenda ddrafft ganlynol wedi'i datblygu a chyflwynwyd cais i ystyried cynnwys yr eitemau ychwanegol:

- Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu - Ysgrifennodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn am gael bod yn bresennol mewn cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a chyflawniadau yn ystod ei gyfnod yn y swydd a nodi cyfleoedd pellach i gydweithio.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y platfform digidol – llwyfannau rhannu data rhanbarthol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cyfrannu atynt. Bydd WriteMedia yn rhoi arddangosiad byr i ddangos sut y bydd yn helpu â'r cynlluniau asesu llesiant nesaf, ymgysylltu, asesu ein perfformiad a sut rydym yn rhannu ac yn casglu data. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth ddiweddaraf ar gael am y System Ddigidol o ran Ymgysylltu gan y Bwrdd Iechyd.
- Cyflwyniad ar wytnwch lleol wrth ymateb i Covid
- Ffrydiau cyllido'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Dylid anfon unrhyw awgrymiadau am eitemau ychwanegol ar yr agenda at Dîm Cymorth y BGC.

Awgrymodd Anna Bird ystafelloedd cyfarfod lle y gall aelodau ddewis pa gyflwyniad i'w weld. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i Dîm Cymorth y BGC.

Dywedodd Huwel Manley mai un pwnc sydd ar goll o'r agenda yw rhagnodi cymdeithasol a gwyrdd.

Y CAM GWEITHREDU	
Hysbysu Tîm Cymorth y BGC am unrhyw awgrymiadau ychwanegol ar gyfer eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar 4 Tachwedd	Pawb
Aildrefnu cyfarfod BGC Sir Gaerfyrddin a oedd i'w gynnal ar 4 Tachwedd tan ddiwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr	Tîm Cynorthwyo BGC

10. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall wedi cael ei godi.